Dyletswyddi – mis Mawrth
Cyhoeddi : Gerallt
Drws : Ion

capelsalem.org

# SALEM

Casgliad hen stampiau yn y cyntedd

## CYHOEDDIADAU MIS MAWRTH

### Oedfaon y Sul

Am 10:30 y bore a 6:00 yr hwyr.
Ysgol Sul yn y bore wedi i'r plant a'r ifanc gyfrannu i rannau arweiniol yr Oedfa foreol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth 7fed | **Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail**<br>*Bedydd Rhiannon, merch Ian ac Elen*<br>**Dewch i ddathlu ein nawddsant ac i ddiolch amdano - croeso i'r plant wisgo i fyny ar gyfer Gŵyl Ddewi.**<br>***Cawl ar ôl oedfa'r bore - elw at yr estyniad***<br>**Gwasanaeth cymun gyda'r hwyr** | Casglyddion: Sara a Siôn Roberts, Will a Nia | Te a choffi: Pawb!! (gweler isod) |
| 14eg | **Parch. Glyn Tudwal Jones** | | - |
| 21ain | **Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail**<br>*Bedydd Tomos a Mali, gefeilliaid Mared a Martin* | Nia Elin, Iona, Ifan a Martha | Siwan a'i chriw |
| 28ain Sul y Blodau | **Parch. Dafydd Andrew Jones**<br>**Dim Ysgol Sul** | | - |
| 2il | **10:00am Cymun y Groglith** | - | - |
| Ebrill 4ydd Sul y Pasg | **Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail**<br>**Dim Ysgol Sul, ond mae croeso i blant fod yn bresennol – bydd stori plant arbennig gan Evan !**<br>**Gwasanaeth cymun yn y bore. Dim oedfa gyda'r hwyr** | Y Blaenoriaid | Y Blaenoriaid |

### Cyfarfodydd yn ystod yr Wythnos

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nos Fawrth | 2il | 8:00pm | Clwb Llyfrau Salem yn y Mans: llyfr o ddewisiad Myrddin Hughes. |
| Bore Mercher | 3ydd | 9:45am | Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin |
| Nos Fercher | 3ydd | 7:30pm | Y Gadwyn – Swper Gŵyl Ddewi - yn y Mochyn Du, Gerddi Soffia; Gwraig gwadd – Caryl Parry: mae rhestr yn y cyntedd i lanw fel arfer. |
| Dydd Gwener | 5ed | 2:00pm | Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd – gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant |
| Dydd Sul | 7fed | 11:30am | *Byddwn yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau caws, bara, ac ati* |
| Nos Iau | 11eg | 7:30pm | Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd – Myfyrdod y Grawys 2 – yng Nghapel Minny Street o dan arweiniad Menna Brown |
| Nos Iau | 11eg | 7:30pm | C.I.S. - Cyfeillion 'Iau' Salem – noson blasu gwîn, yng ngofal Haf Hayes a Geraint Cynan. |
| Dydd Gwener | 12fed | 11:00am tan 12:00 | Clwb Coffi yn Ystafell Edwin. Croeso i bawb sy'n rhydd yn ystod y bore i ymuno â ni am goffi a sgwrs a chwmniaeth |
| Bore Mercher | 17eg | 9:45am | Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin |
| Nos Iau | 18fed | 7:30pm | **CYNGERDD MAWREDDOG YN SALEM - FOUR CHOIRS STANDING – CÔR CANNA, CÔRDYDD, BECHGYN BRO TAF, CÔR Y MOCHYN DU!!!** *Tocynnau ar werth gan Siwan – oedolion £7, plant £3; byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn fodlon mynd â thocynnau i werthu.* |
| Nos Wener | 19eg | 7:30pm | Clwb y Bobl Ifainc |
| Dydd Sul | 21ain | 2:30pm | Bwydo'r di-gartref – festri Tabernacl yr Aes – Tîm Enyd |
| Nos Iau | 25ain | 7:30pm | Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd – Myfyrdod y Grawys 3 – lleoliad i'w benderfynu - o dan arweiniad Aled Edwards |
| Nos Lun | 29ain | 7:30pm | Y Gell Weddi yn y Mans |
| Nos Fawrth | 30ain | 8:00pm | Clwb Llyfrau Salem yn y Mans: llyfr o ddewisiad Heledd Hall. |

### Rhaghysbysebion

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mis Ebrill | | | |
| Dydd Sul | 18fed | 2:30pm | Bwydo'r di-gartref – festri Tabernacl yr Aes – Tîm Gareth |
| Bore Mercher | 21ain | 9:45am | Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin |
| Nos Wener | 23ain | | Cwis dan ofal Aled Wyn a Bowen yn Gôl, elw tuag at gronfa'r estyniad. |
| **Dydd Sadwrn Mai 15fed - Gwibdaith i Cheltenham, elw tuag at gronfa'r estyniad.** | | | |

***APÊL*** – Mae bocs yn y cyntedd ar gyfer ffoaduriaid. Rydym yn casglu gwahanol fathau o nwyddau amdanynt, bydd yn newid yn fisol. Bydd y bocs yn cael ei wacáu ar ddiwedd pob mis. **Mae eisiau: bwydydd sych; sudd ffrwythau bywyd hir (long life fruit juice!); pasta; tiwna;** diolch yn fawr.

***STONDIN LLYFRAU** - nofelau ail-law, croeso i chi ddod a rhai i werthu er fudd yr estyniad - gofynnir yn garedig am lyfrau a nofelau 'gwerthadwy' - yn hawdd i werthu plis!! Stondin ar agor Suliau paned, clawr caled £1, clawr papur 50c. Diolch yn fawr!*